PWYLLGOR CENEDLAETHOL COMISIWN COEDWIGAETH CYMRU COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 26 MAWRTH 2010 YN ABERYSTWYTH

Yn Bresennol: Jon Owen Jones, Cadeirydd
Roger Cooper
Trefor Owen
Clive Thomas
Judith Webb
John Lloyd Jones
Peter Garson

Ymddiheuriadau: Rory O'Sullivan

Yno hefyd: Martin Veale
James Laing (Ysgrifenyddiaeth)

CYFLWYNIAD

1. Estynnodd JOJ groeso i Martin Veale a derbyniodd ymddiheuriadau ROS.

COFNODION A MATERION YN CODI

2. Derbyniwyd cofnodion 12 Chwefror fel rhai cywir.

3. Nododd JLJ y camau gweithredu ynghylch Coedwig Niwbwrch oedd heb eu cwblhau a gofynnodd a oedd achos am dor amod yn erbyn Llywodraeth y Cynulliad yn debygol. Rhoddodd PG sicrwydd i'r pwyllgor nad oedd hyn yn debygol.

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR

4. Dechreuodd TMO ei adroddiad drwy bwysleisio bod Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn canolbwyntio ar greu coetir. Holodd JOJ ynghylch y gofyn am gynllun Coetiroedd Gwell i Gymru yn gyffredinol ac atebodd TMO fod yna gryn alw am ymuno â'r cynllun. Holodd JLJ ynghylch cywirdeb y ffigurau ym mharagraff 5.

Gweithredu: Gwirio cywirdeb ffigurau Coetiroedd Gwell i Gymru (BWW) yn yr adroddiad a'u hailgyflwyno i'r Pwyllgor **TMO**

5. Parhaodd TMO â'i adroddiad trwy amlinellu trafodaethau ynghylch pedwar safle datblygu methan haen lo ar ystâd goetir Llywodraeth y Cynulliad. Gall hyn ddarparu rhagor o ffynonellau incwm. Adroddodd gynnydd da gyda Phartneriaeth Blaenau'r Cymoedd ac roedd cyfleoedd pellach i gysylltu â'r agenda drefol.

6. Amlygodd JLJ yr angen i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri chwarae rhan amlycach yng nghanolfan ragoriaeth Parc Coedwig Coed y Brenin.
   Gweithredu: Briffio'r Pwyllgor ynglŷn â Chanolfan Ragoriaeth Awyr Agored Parc Coedwig Coed y Brenin. **PG**

ADRODDIAD CYLLID

7. BA09/10 – Cadarnhaodd Martin Veale (MV) nad oedd yr alldro a ragwelir wedi newid yn sylweddol ers diwedd Chwefror. Roedd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn profi cynnydd yn ei wariant tua diwedd y flwyddyn ariannol. Byddai angen mynd i'r afael â'r patrwm gwariant hwn yn y dyfodol. Ailadroddodd MV botensial y gronfa ariannu hyblyg i fynd i'r afael â materion ariannu yn y dyfodol. Crynhodd ei adroddiad trwy ddweud wrth y pwyllgor y byddai diwyg adroddiadau yn y dyfodol yn newid yn unol â'r newid i gyfrifo yn ôl amcanion. Cododd JLJ y mater o wariant diwedd y flwyddyn. Roedd TMO yn siomedig fod hyn yn dal i ddigwydd, fel y nodwyd yn yr adroddiad Gwerth am Arian.

8. O ran Atodiad 1 yr adroddiad, mynegodd JOJ bryder fod y gwariant ar ynni adnewyddadwy yn fwy na'r incwm. Atebodd PG fod hyn oherwydd costau cychwynnol yng nghyfnod cynllunio'r rhaglen a gwaith incwm isel megis rheoli llystyfiant ar ymyl ffyrdd a oedd yn osgoi costau rheoli coedwig. Cydnabu JW eglurdeb y diwyg ariannol newydd yn Atodiad 1, ond nododd y byddai angen sylwadau i ategu'r ffigurau sy'n dangos sut mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn cyflawni *Coetiroedd i Gymru* a'r Cynllun Corfforaethol. Nododd y pwyllgor yr adroddiad.

   Gweithredu: Darparu sylwadau ychwanegol ynglŷn â'r ffigurau gyda'r Adroddiad Cyllid nesaf **MV**

ADRODDIAD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A RISG

9. Diolchodd JW i MV am fynychu'r Pwyllgor Archwilio a Risg diweddar a dywedodd ei fod yn gwerthfawrogi pa mor gyflym roedd yn ymgyfarwyddo â materion allweddol. Holodd CT ynglŷn â'r drafodaeth a gofnodwyd yn y cofnodion ynghylch Polisi Llywodraeth y Cynulliad ar Gofrestr Risg Gorfforaethol 5. Cadarnhaodd mai Comisiwn Coedwigaeth Cymru sy'n rheoli Cynllun Corfforaethol y Comisiwn, ond bod angen gweithio'n galed i ddylanwadu ar

bolisi Llywodraeth y Cynulliad. Ychwanegodd MV fod pob ymholiad gan Swyddfa Archwilio Cymru ynglŷn â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol bellach wedi derbyn sylw. Nododd y pwyllgor yr adroddiad.

POLISI A RHAGLENNU

10. Eglurodd CT yr ymagwedd at fesurau perfformiad, a gofynnodd i'r Pwyllgor nodi na ellir newid targedau unwaith y byddant wedi eu cytuno. Cytunodd JLJ fod angen cymysgedd o dargedau y gellir dylanwadu arnynt, a'r rhai sydd dan reolaeth Comisiwn Coedwigaeth Cymru. Mynegodd RC ei bryder nad oedd 3 dangosydd (5b, 7d a 7e) yn ddigon manwl, heb fod o dan reolaeth Comisiwn Coedwigaeth Cymru a'r tu hwnt i'n dylanwad. Cytunodd CT mai dyma'r targedau â'r mwyaf o risg ynghlwm â nhw, ond mynnodd fod peth dylanwad yn bosibl ac mai'r unig ddewis arall oedd ymagwedd blwyfol iawn a fyddai'n arwain at dargedau allbwn yn hytrach na chanlyniad. Credai JLJ y byddai'r targedau'n caniatáu i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru fesur cyfeiriad a newid mewn ymateb i'r Cynllun Corfforaethol, fel y daw rhagor o wybodaeth i'r amlwg. Cafwyd trafodaeth fer ynglŷn â chyhoeddiad diweddar y Gweinidog y byddai 100,000 hectar o goetir yn cael eu creu a'r cysylltiad â thargedau Comisiwn Coedwigaeth Cymru.

11. Amlygodd JLJ y gwahaniaeth rhwng incwm a gwariant yn Rhaglen Gorfforaethol 3. Esboniodd CT fod y gwariant yn y camau cynnar hyn yn uwch nag wrth i'r rhaglen ddatblygu ac nad yw'r ffigurau incwm yn adlewyrchu'r sefyllfa gros lawn o ffioedd opsiynau ffermydd gwynt. Cytunodd y pwyllgor fod angen rhagor o fanylion ar y cynllun corfforaethol i esbonio'r ffigurau hyn.

Gweithredu: Y Cynllun Corfforaethol i gynnwys disgrifiad ochr yn ochr â ffigurau Rhaglen Gorfforaethol 3 **CT**

12. Holodd JLJ ynglŷn â'r cyfeiriad strategol ar grantiau coetir a nodwyd yn Rhaglen Gorfforaethol 1, gan y gallai newid yn sylfaenol y ffordd y mae'r Comisiwn yn gweithio. Atebodd TMO trwy ddweud pe bai'r risg o drosglwyddo cynlluniau grantiau'r Comisiwn yn annerbyniol yn nhermau cyflawni canlyniadau'n ymwneud â choetir, ni fyddai'r Comisiwn yn dadlau o blaid plethu gwaith. Ychwanegodd ei fod yn awyddus i archwilio'r posibiliadau yn y cam hwn. Cododd JW bwynt terfynol ynghylch sicrhau y dylai unrhyw arweiniad ar darddle coed brodorol adlewyrchu'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ynghylch

effeithiau newid yn yr hinsawdd. Cadarnhaodd CT y câi'r mater hwn ei adlewyrchu yn y Safbwynt Polisi Bioamrywiaeth, a fydd yn dylanwadu ar Raglenni Corfforaethol 9 a 10.

13. Cymeradwyodd y pwyllgor y Cynllun Corfforaethol yn amodol ar welliannau.

14. Safbwynt Polisi Coetiroedd Cymru – Cyflwynodd Michelle Van Velzen y safbwynt polisi ac atgoffodd y pwyllgor nad oedd yn ymdrin â choed unigol nac yn ymgorffori sylwadau diweddar ar greu coetiroedd a gyhoeddwyd gan y Gweinidog. Roedd budd-ddeiliaid allweddol ynghlwm â drafftio'r safbwynt polisi, a oedd yn manylu cynnwys *Coetiroedd i Gymru*. Nododd y Pwyllgor adrannau o'r ddogfen lle mae angen egluro peth o'r iaith ymhellach.

15. Cymeradwyodd y pwyllgor y safbwynt polisi yn amodol ar welliannau.

ADRODDIAD Y PANEL YMGYNGHOROL AR STRATEGAETH COETIR

16. Cyflwynodd RC ei adroddiad ac ychwanegodd ei fod wedi derbyn adborth am Adroddiad Read gan aelodau o'r panel. Nododd y pwyllgor yr adroddiad.

PROSIECT YMCHWIL YSTÂD GOETIR LLYWODRAETH Y CYNULLIAD

17. Cadarnhaodd Bill MacDonald fod y ddogfen cychwyn prosiect wedi ei chymeradwyo ac esboniodd fod yna lawer o wersi i'w dysgu o'r ymarferion diweddar yn yr Alban a Lloegr a fu'n edrych ar eu hystadau cyhoeddus. Nododd JLJ mai astudiaeth sylfaenol oedd hon o'r angen i Lywodraeth y Cynulliad berchen ar goetiroedd. Gofynnodd JOJ a oedd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn ystyried enghreifftiau o'r tu allan i'r DG. Atebodd Bill MacDonald mai dim ond ychydig o waith y gellir ei wneud ar hyn o fewn yr amserlen a bennwyd, ond ei fod wedi siarad â budd-ddeiliaid allanol dethol. Clôdd TMO drwy ddweud ei fod yn bwriadu cyflwyno'i adroddiad cychwynnol i'r Gweinidog yn yr haf. Nododd y pwyllgor y diweddariad.

DIWEDDARIAD IECHYD PLANHIGION

18. Amlinellodd Richard Siddons bedwar diweddariad allweddol ar Raglen Bioddiogelwch y DG, Phytophthora ramorum, Dirywiad Difrifol Coed Derw a'r Chwilen Hirgorn Sitrws. Gofynnodd PG a oedd y Rheoliadau Iechyd Planhigion yn dal yn berthnasol neu a oedd angen eu tynhau yn sgil datblygiadau iechyd planhigion diweddar. Cadarnhaodd Richard Siddons fod yr UE yn diwygio'i ymagwedd at faterion iechyd planhigion. Pwysleisiodd JW yr angen am

hyfforddiant ymwybyddiaeth ac ychwanegodd Richard Siddons bod adnoddau'r Asiantaeth Ymchwil Bwyd a'r Amgylchedd yn cael eu defnyddio i ddarparu hyfforddiant i staff y Comisiwn. Nododd y pwyllgor yr adroddiad.

DIWEDDARIAD FOREST RESEARCH YNG NGHYMRU

19. Cyflwynodd Hugh Evans ei adroddiad ac ychwanegodd y bydd Bwrdd Gweithredol Forest Research yn cwrdd yng Nghymru ac yn mynd i'r Sioe Frenhinol ym mis Gorffennaf. Dywedodd y cafwyd cynnydd da wrth feithrin cysylltiadau â grwpiau ymchwil yng Nghymru. Cafwyd trafodaeth fer ynghylch menter Coedwig Ymchwil a'r defnydd o ddalgylch Dyfi fel safle posibl. Nododd y pwyllgor yr adroddiad.

Unrhyw Faterion Eraill

20. Atgoffodd JL y pwyllgor o'r angen i lenwi'r holiadur hunanasesu a ddosbarthwyd yn ddiweddar.

Gweithredu: Ail-anfon yr holiadur at aelodau perthnasol o'r Pwyllgor Cenedlaethol **JL**

Cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cenedlaethol – 14 Mai yng Nghaerdydd – y lleoliad i'w gadarnhau